# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 19 Mai 2015** |
| Amser: | **09.02 - 11.05** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2733**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar AC (Cadeirydd)**<br>**Jocelyn Davies AC**<br>**William Graham AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Sandy Mewies AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Aled Roberts AC** |
| Tystion: | **Steve Clarke, Tenantiaid Cymru**<br>**Mike Halloran, Tai Wales & West**<br>**David Lloyd, TPAS Cymru**<br>**Claire Maimone, Cartrefi NPT**<br>**Jim McKirdle, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**<br>**Steve Porter, Tai Wales & West**<br>**Linda Whittaker, Cartrefi NPT** |
| Staff y Pwyllgor: | **Michael Kay (Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Hannah Johnson (Ymchwilydd)**<br>**Nick Selwyn (Swyddfa Archwilio Cymru)** |

Huw Vaughan Thomas (Archwilydd Cyffredinol Cymru)

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau. Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Clercod gael eglurhad pellach gan Gyngor Powys a Chyngor Rhondda Cynon Taf ar nifer y swyddi gwag a pha adrannau oedd â'r swyddi 'anodd eu llenwi'.

2.1 Rheoli Ymadawiadau Cynnar: Llythyr oddi wrth Jeremy Patterson, Prif Weithredwr Cyngor Sir Powys (7 Mai, 2015)

2.2 Rheoli Ymadawiadau Cynnar: Gwybodaeth ychwanegol gan Rhondda Cynon Taf am ymadawiadau cynnar

2.3 Cadernid Ariannol Cynghorau yng Nghymru: Llythyr gan June Milligan, Cyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth Leol a Chymunedau (14 Mai 2015)

## 3 Diwygiad Lles: Sesiwn Dystiolaeth 3

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Steve Clarke, Rheolwr Gyfarwyddwr, Tenantiaid Cymru a David Lloyd, Cyfarwyddwr, TPAS Cymru ar ei ymchwiliad i ddiwygio lles.
3.2 Cytunodd Steve Clarke i anfon ffigurau am nifer y tenantiaid dan 21 oed sydd ar hyn o bryd yn meddiannu eiddo un a dwy ystafell wely.
3.3 Pan oedd yr Aelodau'n ystyried y dystiolaeth a gafwyd, gofynnwyd i Steve Clarke ddarparu nodyn ynglŷn â pham ei fod yn credu y dylai gweinyddu budd-dal tai gael ei ddatganoli.

## 4 Diwygiad Lles: Sesiwn dystiolaeth 4

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Jim McKirdle, Swyddog Polisi Tai, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Linda Whittaker, Prif Weithredwr, a Claire Maimone, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio, Cartrefi Castell-nedd Port Talbot (NPTHomes); Steve Porter, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, a Mike Halloran - Rheolwr Tai, Tai Wales & West ar ei ymchwiliad i ddiwygio lles.
4.2 Cytunodd Steve Porter i anfon manylion am faint o'r 200 o gartrefi sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd fydd yn dai un neu ddwy ystafell wely, a'r hyn y mae hynny'n cyfateb iddo fel canran y tai y mae Tai Wales & West yn eu hadeiladu ar hyn o bryd. Hefyd, faint o'r 1000 o gartrefi arfaethedig sydd i'w hadeiladu yn ystod y pum mlynedd nesaf fydd yn dai un neu ddwy ystafell wely.
4.3 Cytunodd Jim McKirdle i ddarparu nodyn ar y canlynol:

- polisi'r awdurdodau lleol ar gyfer trosglwyddo tai pan fydd gan denant ôl-ddyledion tai. Pan oedd yr aelodau'n ystyried y dystiolaeth a gafwyd, gofynnwyd am gael gweld copi o'r cytundeb Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn.
- pa ddau awdurdod lleol sydd heb ymrwymo i'r cytundeb.
- un ar ddeg awdurdod lleol sydd â chynlluniau i adeiladu tai cymdeithasol gan gynnwys y nifer arfaethedig o dai y maent yn dymuno eu hadeiladu.
- ffigurau ynglŷn â nifer y tenantiaid ag anableddau sydd wedi cael eu heffeithio a'u hail-leoli o ganlyniad i'r polisi.
- a yw awdurdodau lleol yn ystyried Lwfans Byw i'r Anabl wrth ystyried Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Diwygiad Lles: Ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon:

7.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y llythyr drafft yn amodol ar newid ar ddiwedd paragraff 2.